O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2014 Rhif 3116 (Cy. 315)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Terfyn Cyflymder o 30 mya) 2014

Gwnaed	*19 Tachwedd 2014*
Yn dod i rym	*20 Tachwedd 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Tachwedd 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Terfyn Cyflymder o 30 mya) 2014.

Cyfyngiad

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd ym Mhontnewydd ar Wy yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 153 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Cyffredin Lane hyd at bwynt 250 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Fferm Woodcastle.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A470) (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Ffyrdd Cyfyngedig) 1991**(2)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 19 Tachwedd 2014

R Morgan

RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(2) O.S. 1991/2847